


Pleidleisiau i Fenywod

Pecyn gweithgaredd



'Gweithredu nid Geiriau'

'Pleidleisiau i Fenywod'

Beth sydd yn y pecyn?

I'w ddefnyddio ynghyd â fideos Straeon o'r Senedd 'Pleidleisiau i Fenywod', mae'r pecyn hwn yn cynnwys syniadau a gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth eich myfyrwyr o'r mudiad hawl i bleidleisio.

Yn cynnwys:

- Gweithgaredd trafod
- Ymarfer ysgrifennu llythyr
- Gweithgaredd ymchwil

Sut wnaeth y Swffragetiaid gael gwrandawriad?

Wedi gwyllo'r fideos, cychwynnchw drafodaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddiodd y Swffragetiaid i gael gwrandawriad. Anogwch y dosbarth i feddwl am y mathau o brotestiadau a gweithredoedd a gyflawnont, a pham eu bod yn credu fod hyn yn angenrheidiol.

Cwestiynau ar gyfer rhai 7 i 11 oed

- Pa ddulliau ydych chi'n credu oedd fwyaf effeithiol yn ymgyrch y Swffragetiaid?
- Ydych chi'n credu y byddai'r Swffragetiaid wedi cael mwy o lwyddiant pe byddent wedi defnyddio dulliau llai eithafol?
- Pa ddulliau ydych chi'n credu fyddai'r Swffragetiaid wedi defnyddio pe byddent yn weithgar heddiw?

Cwestiynau ar gyfer rhai 11 i 14 oed

- A oedd y Swffragetiaid yn gywir i fod wedi oedi eu hymgyrch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, beth allai fod wedi digwydd pe na fyddent?
- A yw cael cynrychiolaeth deg yn cyfiawnhau'r ffaith i'r Swffragetiaid dorri'r gyfraith?
- A ellir cyfiawnhau torri'r gyfraith yn rhan o ymgyrch wleidyddol?



Ymarfer ysgrifennu llythyr

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu llythyr gan Swffragét wedi ei charcharu at ei brawd neu chwaer, yn esbonio pam ei bod yn fodlon mynd i'r carchar dros yr achos.

Dylai'r llythyr gyfleu ei theimladau personol a chyfiawnhau ei barn am y mudiad Swffragetiaid ehangach. Dylai gynnwys dadleuon clir o blaid yr hyn mae'n wneud, a'r canlyniadau mae'n gobeithio eu cyflawni.

Ehangwch y dasg trwy ofyn i'r disgyblion ysgrifennu llythyrâu at:

- Reolwr y Carchar yn esbonio ei phenderfyniad i wynebu carchar dros yr achos,
- Comander yr Heddlu i bledio ei hachos, neu
- y Prif Weinidog er mwyn ymgyrchu dros newid polisi

Sicrhewch fod arddull pob llythyr wedi ei addasu ar gyfer y derbynnydd.

Democratiaeth heddiw

Darllenwch neu ailchwarae'r adran ganlynol o ddiwedd Pleidleisiau i Fenywod Rhan Dau:

Constance: *Dwi'n gobeithio am hyn o leiaf: y bydd unrhyw un sydd â'r hawl i bleidleisio yn y dyfodol yn ei ddefnyddio ac yn cofio ymdrechion y Swffragetiaid. Gweithredoedd, nid geiriau! Gweithredoedd, nid geiriau!*

Gofynnwch i'r dosbarth os byddai Constance yn hapus gyda datblygiad democratiaeth yn y Deyrnas Unedig petai'n fyw heddiw? A fyddai'n gweld cymdeithas ble mae yna gydraddoldeb rhwng dynion a menywod?

Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio canrannau pleidleisio etholwyr mewn etholiad lleol neu genedlaethol. Yna gallant gyferbynnu'r niferoedd cymharol isel gyda datganiad Constance.

A ydyn nhw'n credu fod pobl heddiw yn cymryd pleidleisio yn ganiataol?

A oes ganddynt awgrymiadau o ran sut i gynnwys pobl yn fwy yn y broses ddemocrataidd?

Ffeil o ffeithiau

Hyd at ganol y 19eg Ganrif, gallai llai na 10% o'r boblogaeth bleidleisio mewn etholiadau yn y Deyrnas Unedig - ac roeddent i gyd yn ddynion!

Sefydlodd Emmeline Pankhurst Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Menywod (WSPU) yn 1903; bathodd papur y Daily Mail y term 'Swffragetiaid'. O 1908, mabwysiadodd y WSPU gynllun lliw yn defnyddio porffor, gwyn a gwyrdd: roedd porffor yn symbol o urddas, gwyn yn golygu purdeb, a gwyrdd yn arwydd o obaith.

Yn 1918, wedi ymgyrch hir gan fenywod (a rhai dynion) o bob cwr o'r wlad a phob cefndir, fe sicrhodd oddeutu 8.4 miliwn o fenywod yn y Deyrnas Unedig y bleidlais.

Dyddiadau Allweddol

1866 Y ddeiseb dorfol gyntaf yn galw am bleidleisiau i fenywod.

1912 Dechreuodd y Swffragetiaid ddefnyddio tactegau milwriaethus, yn rhannol i brotestio wedi i Mr Asquith dorri ei addewid trwy beidio llofnodi mesur i roi pleidlais i fenywod, o bosibl oherwydd pryderon y byddent yn defnyddio eu pleidleisiau yn erbyn ei blaid!

1914 Stopiodd y tactegau milwriaethus oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf, fodd bynnag yn ystod y rhyfel fe ddechreuodd menywod fod yn gyfrifol am rolau ehangach mewn cymdeithas, gan berswadio nifer o bobl eu bod yn haeddu mwy o gydraddoldeb a hawl i bleidleisio.

1918 Creodd y llywodraeth gyfraith yn galluogi menywod dros 30 i bleidleisio, cafodd hyn ei ostwng i 21 yn 1928, a 18 yn 1969.
Constance Markievicz oedd y fenyw gyntaf i'w hethol i Dŷ'r Cyffredin. Ni chymerodd ei sedd am resymau gwleidyddol.

1919 Nancy Astor oedd y fenyw gyntaf i gymryd sedd yn Nhŷ'r Cyffredin.

1928 Menywod yn ennill y bleidlais ar delerau cyfartal i ddynion.

1979 Y Deyrnas Unedig yn cael ei Brif Weinidog benywaidd cyntaf.

Pobl allweddol

Constance Lytton

Wedi ei geni i deulu breintiedig, ond gwrthryfelodd yn erbyn confensiynau ei dosbarth ac ymgyrchu am well triniaeth i fenywod, yn arbennig yn y carchardai.

Jane Wharton

I sicrhau ei bod yn cael ei thrin fel y Swffragetiaid eraill, fe naddodd 'V' ar ei bron i gynrychioli'r gair 'votes' tra'i bod yn y carchar. Roedd yn weithgar o hyd mewn ymgyrchoedd yn erbyn y llywodraeth, hyd yn oed wedi iddi ddod yn sal iawn.

Emmeline Pankhurst

Arweinydd mudiad y Swffragetiaid yn y Deyrnas Unedig. Defnyddiodd ei hymgyrchoedd ddulliau mwy eithafol.

Emily Wilding Davison

Carcharwyd naw o weithiau, a'i gorfodi i fwyta ar 49 achlysur. Treuliodd noson yn cuddio yn y Senedd ar un adeg i hawlio mai dyma oedd ei chyfeiriad ar y cyfrifiad. Cafodd ei lladd yn 1913 yn Ras Geffylau Epsom, pan gamodd o flaen ceffyl y Brenin, i ddwyn sylw at achos y Swffragetiaid.

Herbert Asquith

Prif Weinidog o 1908-1916, ac yn gwrthwynebu rhoi'r hawl i fenywod i bleidleisio.